| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **BWRDD PENSIWN** |
| DYDDIAD: | **20 GORFFENNAF 2023** |
| TEITL: | **PERFFORMIAD BUDDSODDI'R GRONFA BENSIWN 2022/23** |
| PWRPAS: | **I HYSBYSU AELODAU'R BWRDD O BERFFORMIAD BUDDSODDIADAU'R GRONFA BENSIWN** |
| ARGYMHELLIAD: | **NODI'R WYBODAETH** |
| AWDUR: | **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. Cyflwyniad

Mae perfformiad buddsoddi'r rheolwyr asedau unigol yn cael ei fonitro gan y Panel Buddsoddi yn chwarterol. Mae'r rheolwyr asedau yn cael gwahoddiad i gyflwyno i'r Panel yn eu tro.

Tra bod monitro chwarterol a blynyddol yn cymryd lle, dylid nodi mai dychweliadau'r gronfa bensiwn dros y tymor hir yw'r nod, ac mae'n anochel bydd ychydig o amrywiadau o flwyddyn i flwyddyn, a pherfformiad yn fwy cyfnewidiol o chwarter i chwarter. Yn gyffredinol, mae perfformiad rheolwyr asedau unigol yn cael eu hasesu dros 3 blynedd.

## 2. Perfformiad Buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn yn ystod 2022/23

Ar 31 Mawrth 2023, roedd gwerth marchnad y Gronfa Bensiwn yn £2,762 miliwn gyda'r perfformiad yn erbyn y meincnod wedi ei nodi isod:

| | **3 Mis %** | **1 Blwyddyn %** |
|---|---|---|
| Cronfa | 2.9 | -1.5 |
| Meincnod | 2.7 | -0.3 |
| **Perfformiad Cymharol** | **+0.2** | **-1.2** |

Yn ystod y flwyddyn, mae gwerth y Gronfa Bensiwn wedi sefydlogi ar £2.7 biliwn sydd yn gyson gyda gwerth llynedd. Mae'r flwyddyn wedi bod yn heriol gyda effaith rhyfel Iwcrain a effaith chwyddiant uchel yn effeithio'r marchnadoedd arian. Cafwyd perfformiad o -1.5% gan y Gronfa, er bod hyn tu ôl i'r meincnod, roedd hyn yn y berfformiad cryf mewn amgylchiadau heriol ac yn chwartel uchaf o'r cronfeydd CPLlL yn ystadegau swyddogol PIRC am 2022/23.

**Perfformiad Rheolwyr Buddsoddi Ecwiti**

Mae’r tabl isod yn crynhoi perfformiad y Rheolwyr Buddsoddi ecwiti unigol ar 31ain Mawrth 2023:

| | **Gwerth marchnad 31/03/23 £m** | **Perfformiad 3 Mis %** | **Perfformiad 1 Blwyddyn %** |
|---|---|---|---|
| Black Rock Aquila Life UK Equity | **246.4** | 3.1 | 3.0 |
| Meincnod | | 3.1 | 2.9 |
| **Perfformiad Cymharol** | | **+0.0** | **+0.1** |
| Black Rock ACS Low Carbon | **331.8** | 3.2 | -4.1 |
| Meincnod | | 3.0 | -4.7 |
| **Perfformiad Cymharol** | | **+0.2** | **+0.6** |
| Black Rock Aquila Life Global Dev | **207.9** | 1.6 | 3.5 |
| Meincnod | | 1.4 | 3.0 |
| **Perfformiad Cymharol** | | **+0.2** | **+0.5** |
| Cronfa PPC Emerging Markets | **57.6** | 2.4 | -10.6 |
| Meincnod | | 1.1 | -10.0 |
| **Perfformiad Cymharol** | | **+1.3** | **-0.6** |
| Cronfa PPC Global Growth | **426.9** | 5.5 | -0.9 |
| Meincnod | | 4.4 | -1.4 |
| **Perfformiad Cymharol** | | **+1.1** | **+0.5** |
| Cronfa PPC Global Opportunities | **430.1** | 3.3 | -0.3 |
| Meincnod | | 4.4 | -1.4 |
| **Perfformiad Cymharol** | | **-1.1** | **+1.1** |

Dechreuodd marchnadoedd ecwiti’r flwyddyn yn gryf gyda buddsoddwyr yn cael eu calonogi gan arwyddion bod chwyddiant yn cael ei ddofi a’r gobaith y byddai China yn ailagor o gyfyngiadau Covid-19 yn hybu’r galw. Mewn cyferbyniad, gostyngodd ecwiti yn fras ym mis Chwefror yn sgil cynnydd arafach ar chwyddiant a data economaidd cadarn, a oedd yn awgrymu y gallai cyfraddau llog aros yn uwch am gyfnod hwy.

Cofnododd Marchnadoedd Datblygol elw cadarnhaol mewn chwarter cyfnewidiol ond tanberfformiodd ecwiti marchnad datblygedig. Yn ystod chwarter cyntaf 2023 gwelwyd llai o archwaeth risg ac amheuon ynghylch cryfder adferiad Tsieina yn dilyn ei hailagor a’r effaith ar dwf economaidd byd-eang. Er gwaethaf hyn, parhaodd cryfder Tsieina am chwarter arall wrth i'r farchnad berfformio'n well na'r mynegai marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg ehangach am yr ail chwarter yn olynol.

**Perfformiad Rheolwyr Incwm Sefydlog**

| | Gwerth Marchnad 31/03/23 £m | Perfformiad 3 Mis % | Perfformiad 1 Blwyddyn % |
|---|---|---|---|
| Cronfa PPC Multi Asset Credit | **200.6** | 3.3 | -6.2 |
| Meincnod | | 1.9 | 6.1 |
| **Perfformiad Cymharol** | | **+1.4** | **-12.3** |
| Cronfa PPC Absolute Return Bond | **386.1** | 1.0 | 2.1 |
| Meincnod | | 1.4 | 4.3 |
| **Perfformiad Cymharol** | | **-0.4** | **-2.2** |

Mae'r cronfeydd incwm sefydlog a lansiwyd yn 2021 wedi cael blwyddyn heriol gyda dechreuad negyddol i 2022 gan y marchnadoedd ariannol byd-eang. Gyrrwyd ansefydlogrwydd y farchnad gan ymosodiad Rwsia ar Wcráin. Yn y cyfnod, roedd chwyddiant ar ei uchaf ers degawdau gan arwain i'r US Federal Reserve a Banc Lloegr gynyddu cyfraddau llog.

**Perfformiad Rheolwyr Buddsoddi Eiddo**

Mae'r tabl isod yn crynhoi perfformiad y Rheolwyr Asedau Eiddo unigol:

| | Gwerth Marchnad 31/03/23 £m | Perfformiad 3 Mis % | Perfformiad 1 Blwyddyn % |
|---|---|---|---|
| UBS | 74.9 | 1.8 | -14.8 |
| Lothbury Property Trust | 57.3 | -0.6 | -20.5 |
| Black Rock Property Fund | 55.0 | 0.0 | -15.7 |
| Threadneedle Property Fund | 34.1 | 0.5 | -13.8 |
| Threadneedle Property Unit Trust | | -0.2 | -13.7 |
| | | | |
| **Meincnod** | | **-0.2** | **-14.5** |

Mae enillion eiddo wedi bod yn negyddol ar y cyfan yn ystod y flwyddyn gydag ansicrwydd ynghylch y defnydd hirdymor o adeiladau swyddfa a siopau stryd fawr. Mae twf wedi parhau yn y meysydd diwydiannol a logisteg wrth i boblogrwydd e-fasnach barhau i gynyddu.

**Grŵp Partners**


Mae Grŵp Partners yn gyfrifol am reoli buddsoddiadau ecwiti preifat ac isadeiledd y Gronfa.

| | **Gwerth Marchnad 31/03/23 £m** |
|---|---|
| Partners Ecwiti Preifat | 166.6 |
| Partners Isadeiledd | 67.6 |
| **Cyfanswm** | **234.2** |

Mae monitro perfformiad buddsoddiadau ecwiti preifat ac isadeiledd yn dipyn anoddach nag asedau traddodiadol, megis bondiau wedi'i dyfynnu ac ecwiti. Mae gan gronfeydd ecwiti preifat hyd bywyd penodedig o tua 10-15 mlynedd. Dim ond pan mae asedau unigol yn cael eu gwerthu gellir cadarnhau gwir elw/ dychweliadau, ac felly ni ellir asesu gwir berfformiad nes mae'r gronfa wedi cau. Mae rhaglen y Gronfa ar gyfer buddsoddiadau ecwiti preifat ac isadeiledd yn cael ei hadolygu yn flynyddol gan ein hymgynghorwyr, Hymans Robertson.

## 3. Perfformiad hanesyddol y Gronfa Bensiwn


Gweler gwerth marchnad Cronfa Bensiwn Gwynedd dros y blynyddoedd diwethaf yn y graff isod:




Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd mewn sefyllfa gymharol iach gyda gwerth y gronfa yn cynyddu'n raddol ers peth amser. Mae perfformiad buddsoddiadau'r gronfa wedi bod yn is na'r meincnod yn y flwyddyn, yn bennaf oherwydd perfformiad rhai o'r cronfeydd ecwiti, incwm sefydlog ac eiddo, ond dros gyfnod o dair blynedd, mae'r perfformiad wedi bod yn uwch na'r meincnod, fel y gwelir yn y tabl canlynol:

| | 1 Blwyddyn % | 3 Mlynedd % y.f. |
|---|---|---|
| Cronfa | -1.5 | 11.7 |
| Meincnod | -0.3 | 11.14 |
| **Perfformiad Cymharol** | **-1.2** | **+0.3** |

Mae perfformiad 3 blynedd y Gronfa wedi bod yn gryf iawn ac yn safle 3 allan o'r holl gronfeydd pensiwn CPLlL. Mae'r siart isod yn dangos perfformiad chwarterol y gronfa dros y 3 mlynedd diwethaf.




Cydnabyddir yn gyffredinol bod perfformiad dros gyfnod hirach o amser yn fynegai mwy dilys na blwyddyn unigol oherwydd gall strategaethau a gynllunnir ar gyfer perfformiad da yn y tymor hir ddioddef colledion tymor byr o bryd i'w gilydd.

## 4. Dyraniad Asedau Strategol

Cynhaliodd y Gronfa adolygiad strategaeth fuddsoddi yn dilyn y prisiad teirblynyddol a chytunwyd ar ddyraniadau asedau strategol newydd. Yn benodol, penderfynwyd lleihau'r dyraniad i asedau twf ecwiti o 10% a gwneud ymrwymiadau newydd i ddyled breifat a chronfeydd isadeiledd sy'n cael eu cyflwyno gan PPC. Mae'r Gronfa hefyd wedi clustnodi dyraniad o 5% i Gronfa Credyd Byd-eang PPC a disgwylir i'r buddsoddiad hwn gael ei gwblhau yn ystod Ch2 2023. Mae cynllun wedi'i ddatblygu i symud y Gronfa tuag at y dyraniadau meincnod newydd dros y 12 mis nesaf.

## 5. Argymhelliad

Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r wybodaeth.